FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN)

# Bwrsariaeth Hyfforddiant a Sgiliau 2026/27

Ymgeisiwch am fwrsari ar gyfer cyfleoedd hyfforddi, digwyddiadau ac ymgynghoriaeth. Byddwch yn ehangu ar eich sgiliau fel arddangoswr ffilmiau ac yn buddio'ch sefydliad.

BFI FILM AUDIENCE NETWORK
THE NATIONAL LOTTERY
CHAPTER

# Cynnwys


1 Cyflwyniad

2 Beth yw bwrsariaethau hyfforddi?
Pwy sy'n gymwys?

3 Am faint y gallaf wneud cais?
Sut i gael cefnogaeth
Gwneud penderfyniad

4 Blaenoriaethau ar gyfer cefnogaeth

5 Atal Bwlio, Aflonyddu a Hiliaeth
Ailgadarnhau
Gwerthusiadau a thaliadau

6 Camau Nesaf, Cysylltwch â ni a Cyllid Arall Sydd Ar Gael


# Cipolwg:

- **Cyllid:** hyd at £500
- **Ceisiadau:** rhaglen dreigl (4 wythnos cyn eich hyfforddiant)
- **Cyfnod y gweithgaredd:** Ebrill 2025 – Mawrth 2026
- **Nod:** Bwrsariaethau datblygu proffesiynol a sefydliadol ar gyfer arddangoswyr.

# Cyflwyniad

Rydym ni, Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, yn hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n sgrinio ffilmiau i gynulleidfaoedd cyhoeddus, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Nod y gronfa hon yw dod â'r gorau o ffilmiau annibynnol y DU a ffilmiau rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled Cymru, gan wireddu blaenoriaethau strategaeth BFI Screen Culture 2033.

Rydym yn rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (FAN), sydd wedi derbyn cyllid Loteri Genedlaethol y BFI. Nod y cyllid yw cyrraedd cynulleidfaoedd ledled y DU, gan roi cyfleoedd iddynt fwynhau ystod eang o ffilmiau, waeth be fo'u lleoliad na'u hamgylchiadau.

Mae Chapter wedi'i benodi'n Sefydliad Arweiniol Canolfan Ffilm (SACFf) yng Nghymru. Gweler enghreifftiau o brosiectau rydym wedi'u cyllido yma.

# Beth yw bwrsariaethau hyfforddi?

Mae'r gronfa fwrsari hon yn galluogi staff a gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n aelodau o Ganolfan Ffilm Cymru i ddatblygu eu sgiliau, gan fuddio'u sefydliad a'r rhwydwaith CFfC ehangach.

O fynychu cyfarfodydd strategol y tu allan i'ch awdurdod lleol i gyrsiau mwy dwys am farchnata neu godi arian – y nod cyffredinol yw datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau annibynnol o'r DU a ffilmiau rhyngwladol a delweddau byw yn fwy cyffredinol o Gymru.

## Gall gweithgareddau gynnwys:

- Cyrsiau hyfforddi (technegol, rhaglennu, datblygiad busnes, codi arian, Marchnata, amrywiaeth a chynhwysiant, AD, argyfwng hinsawdd etc.),
- Cynadleddau,
- Cyfarfodydd,
- Gwyliau,
- Dangosiadau ac ymweliadau darganfod ffeithiau i gyrff eraill,
- Ymgynghoriaeth / cyngor arbenigol i gefnogi datblygiad model busnes eich sefydliad.

Gweler enghreifftiau defnyddiol o gyrsiau yma.

## Rydym yn annhebygol o gefnogi:

- Rhywun sydd wedi derbyn bwrsariaeth o'r blaen i gymryd rhan yn yr un gweithgaredd fwy nag unwaith;
- Mwy nag un person fesul corff i gymryd rhan mewn cyfle neilltuol.

Os ydych chi'n gallu cyflwyno achos cryf dros gefnogaeth yn yr amgylchiadau yma, fe fydd eich cais yn cael ei ystyried. Bydd ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli o fewn y gweithlu arddangos hefyd yn cael eu blaenoriaethu yn yr achosion hyn.

# Pwy sy'n gymwys?

- Staff a gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n aelodau o Ganolfan Ffilm Cymru.
- Bydd pobl / sefydliadau nad ydynt wedi derbyn cymorth bwrsariaeth o'r blaen yn cael eu blaenoriaethu.
- Caiff ceisiadau sy'n annog arweinyddiaeth amrywiol ac sy'n cefnogi cynrychiolaeth o fewn y gweithlu arddangos eu blaenoriaethu.

Gweler esiamplau o fwrsariaeth flaenorol yma.

# Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd yn y dolenni canlynol:

- **Adnoddau CFfC** (gan gynnwys pynciau fel cynaliadwyedd, codi arian a chynhwysiant)
- **Fforwm Ffilmiau CFfC** (sesiynau rhaglennu chwarterol ar-lein)
- **Hub Helo** (digwyddiad blynyddol CFfC) a digwyddiadau hyfforddi arbennig eraill gan Ganolfan Ffilm Cymru.
- **Dyddiau rhagddangos Ffilmiau Cymreig** (gwyliwch ffilmiau Cymreig cyn iddynt gael eu rhyddhau, a hynny gydag arddangoswyr eraill)
- **Cynllun Llogi Offer 'Cinema for All'** (wedi'i leoli yng Ngwobrau Iris, Caerdydd)
- **Rhaglen Cynaliadwyedd Sgrin y BFI**

# Am faint y gallaf wneud cais?

- Gall fwrsari dalu costau cwrs neu ffioedd ymgynghoriaeth, costau teithio a llety.
- Mae bwrsariaethau o hyd at £500 ar gael – uchafswm o 100% ar gyfer ffioedd a 50% ar gyfer costau teithio a llety. Byddwn hefyd yn ystyried costau gwrthbwyso carbon eich taith.
- Mae galw mawr am ein cronfa fwrsari, felly gofynnwn yn garedig i chi ond wneud cais am y cyfanswm rydych wir ei angen.

# Sut i gael cefnogaeth

- Gellir gwneud cyflwyniadau ar sail treigl (heb ddyddiad cau penodol) ond dydyn ni ddim yn derbyn ôl-gyflwyniadau.
- Fe ddylech gyflwyno eich cais bwrsariaeth o leiaf bedair wythnos cyn i'r gweithgaredd ddigwydd.
- Gallwn ystyried eich cais o fewn amserlen fyrrach ond dylech ysgrifennu atom ar wahân yn gofyn am ein cyngor ar hyn cyn i chi ei gyflwyno.
- Mae'n rhaid i'r weithgarwch sy'n derbyn cefnogaeth ddigwydd o fewn y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol a rhaid ei gwblhau erbyn Mawrth 2027.

# Gwneud penderfyniad

- Caiff penderfyniadau eu gwneud gan uwch aelod o staff FHLO (Canolfan Ffilm Cymru).
- Gofynnwn i chi gofio bod galw mawr am y bwrsariaethau ac ni fydd modd cefnogi pawb, na chwaith darparu'r holl swm i bawb.
- Fe fyddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny sydd agosaf at einblaenoriaethau.

# Blaenoriaethau ar gyfer cefnogaeth

## a) Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n datblygu sgiliau yn unol â strategaeth BFI Screen Culture 2033:

- **Cynulleidfaoedd ifanc** (25 oed ac iau) a theuluoedd,
- **Ecwiti a Chynhwysiant:** Chwalu ffiniau cymdeithasol, economaidd a daearyddol i gynulleidfaoedd,
- **Ymgysylltu â'r gynulleidfa** gyda dewis ehangach o ffilmiau a delweddau byw gan gynnwys ffilmiau annibynnol y DU (yn cynnwys ffilmiau o Gymru) a ffilmiau rhyngwladol, ffilmiau dogfen, teledu a thechnoleg ryngweithiol,
- **Treftadaeth sgrin:** Rhagor o fynediad at gasgliadau archif cenedlaethol a rhanbarthol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru.
- **Cynaliadwyedd Amgylcheddol:** Ceisiadau sy'n ymdrechu i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Gweler ein blaenoriaethau CAFf am ragor o wybodaeth am y meysydd uchod.

## b) Rydym hefyd am ddefnyddio ein Cynllun Bwrsariaeth i gefnogi Safonau Amrywiaeth y BFI (BFI Diversity Standards) sydd wedi'u diweddaru, drwy:

- Galluogi pobl/cyrff o gymunedau lleiafrifol i gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol;
- Ehangu amrediad y ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd gyda straeon, castiau, criw a lleoedd amrywiol yn cael eu darluno;
- Hybu cyfleoedd hyfforddi a fydd yn chwalu ffiniau cymdeithasol, economaidd a daearyddol (megis gwell fynediad i gynulleidfaoedd anabl):
- Rydyn ni hefyd am sicrhau bod ein cefnogaeth yn cyrraedd pob cwr o Gymru, ac wedi'i wasgaru'n deg yn ddaearyddol. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau mewn ardaloedd difreintiedig, megis awdurdodau lleol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cynlluniau Y Cynllun Cymdogaethau / Balchder Bro.

## c) Mae gwerth cyhoeddus clir o'n buddsoddiad yn bwysig gan fod cyllid FAN yn dod o achosion da y Loteri Genedlaethol.

# Atal Bwlio, Aflonyddu a Hiliaeth

Mae llawer o waith i'w wneud i greu gweithleoedd diogel a pharchus ar draws y diwydiannau sgrin.

Mewn ymateb i broblemau brys a systemig, datblygodd BFI a BAFTA set o egwyddorion a chanllaw dim goddefgarwch mewn ymgynghoriad â sefydliadau, undebau a chyrff o fewn y diwydiannau ffilm, teledu a gemau. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddarllen a rhannu'r rhain gyda'u sefydliadau.

Petaech am drafod unrhyw ymholiadau neu bryderon, gofynnwn i chi ddarllen ein proses rhoi adborth a chysylltu â ni yma.

# Ailgadarnhau

**Y cyflwyniadau cryfaf fydd y rhai sydd ym marn Canolfan yn amlwg yn sefydlu –**

- Cydweddiad strategol gyda blaenoriaethau BFI a'r Ganolfan;
- Cefnogaeth i Safonau Amrywiaeth BFI;
- Y manteision a'r gwaddol penodol i'ch corff ac i'r rhwydwaith Canolfan ehangach;
- Gwerth am arian;
- Cynaliadwyedd amgylcheddol.

# Gwerthusiadau a thaliadau

- Cadwch y derbynebau gwreiddiol gan fod rhaid eu darparu ar gyfer yr holl gostau.
- Telir costau yn dilyn cwblhau'r ffurflen gwerthusiad bwrsariaeth a blog (sy'n gallu cael ei gyflwyno drwy gyfrwng fideo). Efallai y byddwn yn cyhoeddi'r blog i rannu gwybodaeth ddefnyddiol a hyrwyddo arfer gorau.
- Mae'n bosib y bydd dyfyniadau o adroddiadau yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu'n ddienw, oni bai eich bod yn rhoi caniatâd i'ch enw a manylion eich corff gael eu rhannu i'r union ddiben yma.

## Camau Nesaf

Os hoffech drafod bwrsariaeth potensial gyda Chanolfan Ffilm Cymru cyn gwneud cais, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

- **Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau –** lisa@filmhubwales.org / 02920 311067

# Cyllid arall sydd ar gael

- Cronfa Arddangos Ffilmiau (CAFf) (rhaglenni sgrinio i ddatblygu cynulleidfaoedd mwy)
- Potyn Pitshio CAFf (digwyddiadau unigol neu raglenni tymor byr)
- Gwnaethpwyd yng Nghymru (dylid ymgeisio i CAFf)
- Gwyliau (dylid ymgeisio i CAFf)

Os ydych yn chwilio am gyllid ar gyfer gweithgarwch na fedrwn ei ariannu, gwelwch ein hadnodd codi arian ar gyfer dolenni allanol.

Rydym hefyd yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, cyrsiau hyfforddi, cefnogaeth marchnata a newyddion y diwydiant.

# Dim yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru?

I ymaelodi, cwblhewch ein Ffurflen Ymaelodi.

Mae aelodaeth am ddim i sefydliadau cymwys ac yn cynnig mynediad i'n hystod o gyllid, cefnogaeth a buddion.